# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Hannah Mefin**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 25 o Fedi 2025 am 19:00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**

Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Michael Williams

**1.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cynghorydd Catrin Wager

**Ymddiheuriadau** – Y Cynghorwyr Einir Williams, Dyfrig Jones, Linda Brown

**2. Datgan Diddordeb: Dim**

**3. Materion Brys:** Cais am biniau – Cynghorydd Ann Williams bin sbwriel yn cae chwarae pont weun a cae chwarae stryd goronwy – y clerc i gofyn i Cyngor Gwynedd ynghlyn a hyn.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 o Orffenaf 2025

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Parcio Stryd Fawr –** Bu oedi, ond disgwylir i Gyngor Gwynedd ddechrau'r gwaith ar y llinellau melyn ym Methesda dros y penwythnos.

**5.2 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig**

Mae'r brydles wedi'i hailysgrifennu ac yn barod i'w hadolygu. Penderfynodd y cyngor cymuned edrych dros y ddogfen a'i thrafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
Awgrymodd Dafydd Cadwaladr, perchennog y tir, y dylai'r cyngor cymunedol lunio asesiad risg o'r llwybr, gan y byddai'r cyngor yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ac ati.
Nododd y clerc ei bod wedi mynd am dro gyda Mair O. Pearce a Dafydd Cadwaladr (perchenogion y tir) i archwilio'r llwybr, ac mae rhywfaint o ddifrod amlwg i'r ffensys ac ati.
Awgrymodd Dafydd Cadwaladr ddefnyddio gwasanaethau Barry, swyddog cynnal Partneriaeth Ogwen, sydd â llawer o brofiad o gynnal asesiadau risg awyr agored.
Bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach ym mis nesaf. Cynigiwyd trafod y mater hwn ymhellach o dan Is-bwyllgor Asesiad Risg.

Penderfynwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd am gadarnhad o bwy sy'n gyfrifol am faterion risg mewn perthynas â llwybrau eraill y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt.

**5.3 Cysgodfan Bws Maes Bleddyn**
Penderfynwyd y bydd y Clerc yn prynu'r gysgodfan ac yn ymholi i gadarnhau pwy fydd yn gyfrifol am y gwaith tir paratoi.

**5.4 Biniau Ailgylchu Stryd Fawr:** Hysbyswyd y cyngor fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ailnewid pob un o'r biniau ar y Stryd Fawr er mwyn iddynt gyd-fynd â'r thema treftadaeth. Mae'n debygol y bydd y biniau newydd yn cynnwys biniau ailgylchu ac, o bosibl, finiau 'clyfar' hefyd.

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd cais y Cyngor Cymuned i Gronfa Gwynedd Ni ar gyfer darparu biniau ailgylchu yn Rachub a Gerlan wedi bod yn llwyddiannus, gan nad oedd caniatâd ysgrifenedig gan Gyngor Gwynedd wedi'i dderbyn mewn pryd. Fodd bynnag, nododd tîm Adfywio Cyngor Gwynedd y gallai fod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer hyn yn y dyfodol agos, ac y byddent yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'r Cyngor Cymuned.

**5.5 Capel Jerusalem – Ystyriaeth o Gais am Gymorth Ariannol**

Mae Capel Jerusalem yn dymuno cymorth ariannol at gostau cynnal a chadw (yr ardd) Awgrymwyd i'r clerc anfon y ffurflenni perthnasol at Y cynghorydd Walter Williams er mwyn iddynt gyflwyno cais am rodd.

**5.6 Is-bwyllgor Asedau –** Y Clerc i e-bostio yr is-bwyllgor a trefnu cyfarfod.

**5.7 Trosglwyddiad i Octopus Energy -** Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor Cymunedol yn trosglwyddo i Octopus Energy ar ddydd Gwener, 26ain o Fedi. Nodwyd fod y Clerc wedi talu'r blaendaliadau angenrheidiol. Bydd y taliadau o hyn ymlaen yn cael eu tynnu'n uniongyrchol o'r banc drwy ddebyd uniongyrchol.

## 6 Cyflwyniad o'r Datganiad Ariannol Hyd Hyn

Cadarnhawyd fod y pwyllgor cyllid wedi cyfarfod ar 24ain Medi, ac mae'r cyngor cymunedol wedi derbyn y datganiad ariannol hwn.

## 7 Adolygu a Mabwysiadu Dogfennau a Pholisïau Blynyddol

Derbyniodd y cyngor y dogfennau a'r polisïau blynyddol a'u mabwysiadwyd yn ffurfiol.

## 8 Cais i osod codau QR hanesyddol ar y Carneddau (Cwm Caseg a Cwm Pen Llafer)

Darllenodd y Cyngor Cymuned y gohebiaeth gan Nigel Beidas ac yn cadarnhau eu bod yn llawn gefnogaeth i'r cais hwn. Credant y gallai hyn fod o fudd i'r gymuned ac i ddehongli'r dirwedd. Y Clerc i gysylltu â Nigel Beidas.

**9 Cais i neilltuo Lle Parcio ar gyfer Casgliadau Arian Swyddfa'r post – Siop / Post Rachub:** Trafodwyd nad yw'n awdurdod y Cyngor Cymuned i wneud hyn, ond bydd y Clerc yn trafod gyda Chyngor Gwynedd a oes unrhyw beth y gellir ei wneud o ran dynodi lle parcio y tu allan i'r siop. Awgrymwyd y gallai'r Swyddfa Bost ddefnyddio'r tir preifat tu ôl i'r siop i barcio.

**10 Cais gan Caban Gerlan:** Trwsio Ffens ar Stryd y Ffynnon: Penderfynwyd y bydd y Clerc yn ymateb i Mark Gahan i gadarnhau nad cyfrifoldeb y Cyngor Cymunedol yw'r ffens hon, ond yn fwy na thebyg cyfrifoldeb y tirfeddianwyr, sef perchnogion y tŷ *Tŷ Llyn*.

## 11 Maes Parcio Gerlan:

Mynegodd y Cyngor Cymuned bryder ariannol ynghylch yr oedi parhaus yn y prosiect hwn. Bu'r Clerc mewn cyfarfod gyda YGC a pherchennog y tir ar y safle dros yr haf, ac mae'r cynllun bellach yn cael ei derfynu gyda'r ffiniau'n cael eu gwneud yn fwy cywir ac eglur. Awgrymwyd trefnu cyfarfod rhwng y Cadeirydd, y Clerc, Dyfrig Jones, ein cyfreithiwr a chynrychiolwyr YGC er mwyn deall beth yw'r camau nesaf. Y Clerc i trefnu hyn mor fuan ag sy'n bosib.

**12. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2025'

**12.1 Llywodraeth Cymru: Addurniadau Dolig –** Y Clerc i lenwi ac anfon yr ffurfflen perthnasol cyn Hydref 31ain.

**12.2 Zip World, Diweddariad:** Mae Cyngor Cymuned Llandygai yn teimlo nad ydynt wedi derbyn yr holl atebion i'w cwestiynau a nodwyd yn y llythyr a luniwyd gan y Cynghorydd Dafydd Roberts. Gofynnodd Cyngor Cymuned Llandygai a fyddai Cyngor Cymuned Bethesda yn dymuno arwyddo'r llythyr hefyd. Penderfynodd Cyngor Cymuned Bethesda, yn lle hynny, wahodd Andrew Hudson neu gynrychiolydd Zip World i'r cyfarfod nesaf ar 30 Hydref 2025 i ddeallt mwy am cynigion Zip World i'r cymuned. Y Clerc i e-bostio Andrew Hudson.

**13. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | BACS | 54797501027<br><br>24-26 High Street, Christmas Lighting, Bangor, LL57 3AE – wedi talu 07/08 | **£85.27** |
| Scottish Power | BACS | 00186742016<br>Gorffwysfan High Street, Bethesda Comm Council, Bangor, LL57 3AR – wedi talu 07/08 | **£99.16** |
| Scottish Power | BACS | 16127171133<br><br>87 High Street, Bangor, LL57 3AR – wedi talu ar y 7/08 | **£46.47** |
| Scottish Power | BACS | 00186742016 Gorffwysfan | **£99.16** |
| Scottish Power | BACS | Trydan 54797551020 | **£95.27** |
| Scottish Power | BACS | Trydan 54797501027 | **£85.64** |
| Snowdonia Fire | BACS | Snowdonia Fire: Difoddydd Tan Cynnal a Chadw | **£48.00** |
| Dyffryn Ogwen | BACS | Ysgoloriaeth | **£150.00** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | BACS | Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen (Rhodd) | **£150.00** |
| Cyngor Gwynedd | BACS | Ffioedd Archwil Mewnol | **£480.00** |
| John Wyn Jones | BACS | Cyflog Awst 25 | **£436.53** |

**14. Crynodeb Llais Ogwan**

- Ysgoloriaeth
- Gwahodd Zip World
- Cysgodfan Bws Maes Bleddyn
- Biniau Newydd Stryd Fawr

**15. Unrhyw Mater Brys Arall**

**Dim**

**16. Cynllunio**

| Rhif Cais | Lleoliad | Disgrifiad | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **C25/0328/13/RA** | Spar Stores, Stryd Fawr, Bethesda | Cais i ryddhau amod 3 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu gofod manwerthu a chanolfan dreftadaeth gan ail-ddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr. | Amod(au) wedi rhyddhau yn llawn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C25/0536/13/RA** | Former C L Jones Timber and Builders Merchants | Cais i ryddhau amod 4 (Cynllun Gwella Bioamrywiaeth) o ganiatâd cynllunio C25/0404/13/LL ar gyfer newid defnydd o "Sui Generis" i ddosbarth defnydd B8 "Storio a dosbarthu". | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn |
| **C23/0207/13/CR** | Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol | Ar y gweill |
| **C25/0422/13/LL** | 5 & 6 Llys Victoria, Stryd Fawr, Bethesda, Bangor, LL57 3AN | Gosod ffenestr gromen ar lethr de-orllewin y to | Caniatawyd gyda amodau |
| **C25/0449/13/DT** | 2 Stryd Fer, Gerlan, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3SU | Dymchwel estyniad ystafell fwyta presennol a chodi estyniad newydd i'r eiddo presennol | Caniatawyd gyda amodau |